# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | Dyddiad: | 10 Mehefin 2016 |
| | | Deialu Union: | 01824 712568 |
| | | e-bost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD LLUN, 20 MEHEFIN 2016** yn **YSGOL DINAS BRAN, LLANGOLLEN**.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**MYFYRDOD TAWEL**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 3 - 10)

Cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2016 yn gofnod cywir.

**5 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU** (Tudalennau 11 - 16)

Derbyn dadansoddiad o Adroddiad Arolygon diweddar gan Estyn.

**6 CYDWEITHIO YSGOL I YSGOL - DIGWYDDIAD LANSIO** (Tudalennau 17 - 52)

**7 CCYSAGC** (Tudalennau 53 - 72)

- Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas yn Hwlffordd ar 8 Mawrth 2016.

- Bydd Sir Ddinbych yn cynnal y cyfarfod CCYSAGC haf ar 23 Mehefin 2016 yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Y Rhyl.

- Diweddariad ar Adolygu Cwricwlwm Llywodraeth Cymru Mai 2016.

- Enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith (23 Mehefin 2016).

**8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 13 Hydref 2016

**AELODAETH**

**Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

| | |
|---|---|
| Bill Tasker | Joe Welch |
| Arwel Roberts | Ann Davies |

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Mr. Simon Cameron | Mary Ludenbach |
| Mr. Dominic Oakes | Mrs C Thomas |
| Y Parch. B H Jones | S Harris |
| Y Parch. Martin Evans-Jones | Is-Gapten Sian Radford |

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

| | |
|---|---|
| Mrs C Harmsworth | Mrs Maureen Phillips |

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

**COPÏAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o’r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun , Dydd Gwener, 12 Chwefror 2016 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Dewi Owens, Arwel Roberts, Joe Welch a/ac Ann Davies.

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Y Parch. B H Jones a/ac S Harris.

**Yn Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Ms A. Ballantyne.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cynghorydd Her dros GwE (PL) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.  Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau CYSAG fyfyrio ar golli rhai oedd yn annwyl iddynt a pherthnasau agos nad ydynt gyda nhw bellach.

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Simon Cameron, Dominic Oakes a/ac Y Cynghorydd Bill Tasker.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i’w ystyried yn y cyfarfod.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion pwyllgor Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015 (wedi’u cylchredeg yn flaenorol).

1. Ymddiheuriadau:- Hysbysodd Cynghorydd Herio GwE (CH) Aelodau bod llythyr o ddiolch wedi cael ei anfon at Mr Gavin Craigen am ei fewnbwn i'r Pwyllgor.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf:- Eglurodd y CH bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Rhuthun yn hytrach nac yn Ysgol Dinas Bran, Llangollen, gan fod yr aelod o staff dysgu perthnasol yn dioddef problemau iechyd. Cafodd lleoliadau mewn ysgolion eraill eu ceisio, ond nid oeddynt ar gael. Fodd bynnag, roedd cysylltiadau cadarnhaol wedi eu sefydlu gyda nifer o Ysgolion Uwchradd.

Hysbyswyd aelodau bod llythyrau llongyfarch wedi cael eu hanfon at ysgolion oedd yn ymwneud â'r broses Estyn, yn nodi sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd fel rhan o'r adroddiadau.

***PENDERFYNWYD** – y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015 fel cofnod cywir.*

**5 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU**

Cyflwynodd Cynghorydd Herio GwE (CH) adroddiad (wedi'u cylchredeg eisoes) oedd yn darparu dadansoddiad o Adroddiadau Archwiliadau Estyn a gyhoeddwyd yn nhymor yr Hydref, o safbwynt darpariaeth Addysg Grefyddol, addysg ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ac addoli ar y cyd, mewn tair ysgol rhwng Tachwedd 2014 ac Ionawr, 2015.

Mae archwiliadau wedi eu cynnal yn Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Llanelwy, Ysgol Bro Dyfrdwy, Cynwyd ac Ysgol Gynradd Hiraddug, Diserth, ac roedd manylion am bob ysgol wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad a chawsant eu crynhoi gan y CH.

Rhoddodd y CH grynodeb i'r aelodau am ganfyddiadau yn ymwneud â phob ysgol a chafodd y sylwadau a chanlyniadau cadarnhaol eu nodi gan yr Aelodau. Eglurodd y CH bod y sylwadau a dderbyniwyd wedi bod yn fyr a thalodd sylw penodol i'r canlynol:-

Sylwadau Cadarnhaol – Mae Perfformiad Cyfredol yn dangos bod staff yn darparu cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu haddysg ysbrydol, gymdeithasol, foesol a diwylliannol (Hiraddug).

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Lles:-

- Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'u rôl yn y gymuned leol drwy gysylltiadau cryf gyda'r eglwys gadeiriol ac ymweliadau â'r hosbis leol. (Ysgol V.P. Llanelwy)
- Mae disgyblion yn trefnu gweithgareddau i godi arian i nifer o elusennau ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion pobl eraill. Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus er mwyn codi arian i apêl Nepal. (Bro Dyfrdwy)
- Mae disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o barch, gofal a phryder am eraill, o fewn yr ysgol ac yn y byd ehangach. (Hiraddug).

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau dysgu:-

- Mae ymweliadau gan fusnesau lleol, cysylltiadau â'r eglwys gadeiriol a gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn dda. (Ysgol V.P. Llanelwy)
- Ddealltwriaeth dda o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy eu cyfranogiad yn y Diwrnod Ewropeaidd a phrosiect o gefnogaeth i blentyn yn Borneo. (Ysgol V.P. Llanelwy)
- Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau amrywiol a diddorol ar draws yr ysgol, sy'n cwrdd â holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol. (Bro Dyfrdwy)
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy waith thematig, a chysylltiadau â gwledydd eraill fel Lesotho. (Bro Dyfrdwy)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion yn effeithiol. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol trwy wasanaethau ysgol gyfan rheolaidd a gweithgareddau eraill yn y gymuned leol. (Bro Dyfrdwy)
- Mae cysylltiadau diddorol gydag India a Tsieina wedi bod o gymorth i ddisgyblion ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth werthfawr o ddiwylliannau ac arferion eraill, sydd wedi cyfoethogi natur ofalgar a pharchus yr ysgol. (Hiraddug)

Gofal, cymorth ac arweiniad:-

- Mae staff yn datblygu datblygiad ysbrydol, diwylliannol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. Mae ymwelwyr ac ymweliadau y tu allan i'r ysgol yn darparu profiadau gwerth chweil sy'n helpu datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. (Ysgol V.P. Llanelwy)
- Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol trwy wasanaethau ysgol gyfan rheolaidd a gweithgareddau eraill yn y gymuned leol. (Bro Dyfrdwy)
- Caiff disgyblion gyfleoedd buddiol iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae cysylltiadau rhyngwladol cryf yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn y Cyfnod Sylfaen yn arwain at ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill. (Hiraddug)

Yr Amgylchedd Dysgu:-

- Cymuned gynhwysol iawn lle mae staff yn trin pob disgybl yn gyfartal, yn deg a chyda pharch. Mae staff yn hyrwyddo amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod gan bob disgybl fynediad cyfartal i bob agwedd

ar fywyd yr ysgol. Mae ethos gofalgar yr ysgol yn annog disgyblion i gael parch a goddefgarwch tuag at eraill. (Ysgol V.P. Llanelwy)

- Cymuned glos a chroesawgar sy'n creu ethos cynhwysol ac mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle i hyrwyddo cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth. (Bro Dyfrdwy)
- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda. (Hiraddug)

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?

Gweithio mewn partneriaeth:-

- Mae cysylltiadau gyda'r eglwys gadeiriol, y gymuned leol ac asiantaethau allanol yn gwneud cyfraniad effeithiol i ansawdd darpariaeth yr ysgol. (Ysgol V.P. Llanelwy) Cadarnhaodd y CH mai ychydig o sylwadau yn unig fu gan Estyn o safbwynt rhyngweithio a chydlafurio gyda chymunedau ffydd yn ystod y cylch dan sylw. Cafwyd cadarnhad na gyflwynodd yr Eglwys yng Nghymru Adroddiadau Adran 52.

Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd J.A. Davies am y ffaith bod tua 27% o ddisgyblion Ysgol Fabanod VP Llanelwy ag anghenion dysgu ychwanegol, cadarnhaodd y CH mai tua 25% oedd canran cyfartalog Cymru (20% yw'r ffigwr mewn gwirionedd). Cyfeiriodd at y broses sydd wedi ei mabwysiadu ar gyfer asesu disgyblion, o safbwynt defnyddio'r data sydd ar gael, a rhoddodd fanylion o'r broses o safbwynt y Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, eglurodd y CH bod Cwestiynau Allweddol 2 yn ymwneud ag amgylchedd yr ysgol a dysgu a phrofiadau'r disgyblion, a bod Cwestiwn Allweddol 3 yn ymwneud ag arweinyddiaeth a sicrhau partneriaethau.

Cyflwynwyd cwestiwn gan y Cynghorydd J.A. Davies ynghylch gweithredu'r Polisi Bwlio. Eglurodd y CH y gallai'r mater o fwlio gael ei drafod o dan Gofal, cefnogaeth ac arweiniad, rhoddwyd sylw i'r cyfleoedd rheolaidd mae disgyblion yn ei gael i adlewyrchu a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy wasanaethau ysgol gyfan rheolaidd a gweithgareddau eraill yn y gymuned leol, yn benodol y profiadau a geir yn yr ysgol a'r ymagweddau y mae'r ysgolion yn eu cymryd er mwyn delio gyda'r broblem.

Mynegwyd pryderon gan y Cynghorydd D. Owens am yr angen am gysondeb ynghylch y wybodaeth a ddarperir o safbwynt pob ysgol yn unigol. Cytunodd y CH i edrych ar y pryderon a fynegwyd o safbwynt y broses adrodd.

***PENDERFYNWYD -*** *fod y Pwyllgor yn derbyn a nodi'r adroddiad yn amodol ar yr uchod.*

## 6 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2015

Cyflwynodd y CH Grynodeb o Adroddiad Canlyniadau Arholiadau 2013-2014 (wedi'u cylchredeg eisoes) a oedd yn cynnwys manylion am:-

- TGAU Astudiaethau Crefyddol – Cyrsiau Llawn.

  Amlinellodd y CH y data a ddarparwyd o safbwynt:-

  - Ysgol Uwchradd Prestatyn – roedd nifer fawr o ddisgyblion ar gyfer y Cwrs Llawn.
  - Dinas Bran Llangollen – lleihad o 25% oherwydd dyraniad amser posib. Cysylltwyd gyda'r Rheolwr Llinell.
  - Ysgol Uwchradd Rhyl – cytunodd Aelodau y dylai CYSAG ymweld â'r ysgol newydd pan fydd yn weithredol.
  - Ysgol Brynhyfryd – y ffigwr wedi lleihau ond yr oedd yn dal i fod uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.
  - Ysgol y Bendigaid Edward Jones, Y Rhyl – Chwilio am welliant pellach drwy rannu adnoddau.

Cytunodd Aelodau i'r CH anfon llythyrau ar ran CYSAG yn llongyfarch Ysgol Uwchradd y Rhyl, Ysgol Uwchradd Prestatyn a St Brig, Dinbych, gan gydnabod eu cyraeddiadau.

Cyflwynodd y CH gymhariaeth o ffigyrau Cymru Gyfan o safbwynt ffigyrau Cyrsiau Llawn a Chyrsiau Byr dros y deuddeg mis diwethaf. Cafwyd cadarnhad y byddai darpariaeth Cyrsiau Byr yn parhau yng Nghymru er ei fod wedi ei ddileu yn Lloegr.

- TGAU Astudiaethau Crefyddol – Cyrsiau Byr.

  Amlinellodd y CH y data a ddarparwyd o safbwynt y Cyrsiau Byr. Mynegwyd pryderon ynghylch:-

  - Ysgol Uwchradd y Rhyl – ffigyrau o 4.4.%
  - Canmolodd y Cadeirydd gydweithio rhwng ysgolion.

- TGAU Astudiaethau Crefyddol – Safon Uwch.

  Amlinellwyd y materion canlynol o safbwynt:-

  - Cydnabuwyd bod ffigyrau Safon Uwch yn gyson is.
  - Amlinellwyd effaith Bagloriaeth Cymru o safbwynt blociau dewisol.
  - Mynegwyd pryderon am y niferoedd isel a gofnodwyd, a'r rhesymau dros y gostyngiad.
  - Roedd effaith dim darpariaeth cyrsiau Safon Uwch yng Ngholeg y Rhyl wedi bod yn sylweddol.

Pob Astudiaethau Crefyddol.

- Tabl 1: Canlyniadau TGAU 2015: Pob Astudiaethau Crefyddol.
- Tabl 2: Canlyniadau TGAU 2014: Pob Astudiaethau Crefyddol.
- Tabl 3: Canlyniadau TGAU 2015: Pob Cwrs Byr Astudiaethau Crefyddol.
- Tabl 4: Canlyniadau TGAU 2014: Pob Cwrs Byr Astudiaethau Crefyddol.
- Tabl 5: Canlyniadau TGAU Safon Uwch 2015: Pob Astudiaethau Crefyddol

- Tabl 6:- Canlyniadau TGAU Safon Uwch 2014: Pob Astudiaethau Crefyddol

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd cytunwyd y byddai'r CH yn hysbysu'r Aelod Arweiniol dros Addysg o'r pryderon a fynegwyd gan yr Aelodau o ran y lleihad mewn niferoedd, ac y byddai cais yn cael ei wneud am weithredu a chymorth i ddelio gyda'r problemau a nodwyd.

***PENDERFYNWYD*** *- yn ddibynnol ar yr uchod, y dylid derbyn a nodi Crynodeb Canlyniadau Arholiadau 2014-15.*

## 7 HOLIADUR CCYSAGC I YSGOLION

Soniodd y Cynghorydd Herio (CH) am yr adolygiad ar effaith Bagloriaeth Cymru ar Addysg Grefyddol. Eglurodd bod CCYSAG wedi anfon arolwg at bob ysgol i asesu eu hymatebion o safbwynt effaith Bagloriaeth Cymru, soniodd yn benodol ar yr effaith ar yr amserlen TGAU sydd wedi lleihau darpariaeth cyrsiau byr yn Sir Ddinbych.

Hysbyswyd Aelodau gan y CH bod yr ymatebion a dderbyniwyd, gan Benaethiaid a Phenaethiaid Adrannau, yn nodi nad oedd effaith negyddol wedi ei gael ar Addysg Grefyddol ar draws Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint a Chonwy o ran TGAU.

Cadarnhaodd y CH y byddai'r arolygon wedi eu cwblhau yn cael eu pasio ymlaen at CCYSAG.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylid derbyn yr adroddiad a nodi'r safbwynt.*

## 8 CWRICWLWM AM OES

Eglurodd y Cynghorydd Herio (CH) bod Huw Lewis, Gweinidog Addysg a Sgiliau, wedi cytuno i dderbyn holl argymhellion adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm. Mae dogfen 'Cwricwlwm am oes' wedi cael ei hysgrifennu i osod y cynlluniau ar gyfer sut y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu.

Rhoddwyd cyflwyniad PowerPoint gan y CH, oedd yn amlinellu datblygiad Cwricwlwm Cymru newydd fel y cynigiwyd gan y ddogfen Cwricwlwm am oes, ac amlinellwyd y meysydd amlycaf hyn o fewn y cyflwyniad gan y CH:-

- Cymwys am Oes – Cwricwlwm i Gymru ac am Oes
- Amlinelliad Dilyniant
- Rhagair Gweinidogol.
- Yr Athro Donaldson – Rhagair.
- Wyth Maes Hanfodol – Plannu'r Pedwar Diben
- Creu Cwricwlwm Newydd (Rhwydwaith Arloesol)
- Ymestyn a Hyrwyddo Profiadau Dysgwyr.
- Galluogi'r Iaith Gymraeg i Ffynnu.
- Datblygu Fframwaith Asesu a Gwerthuso newydd.
- Adeiladu Cymhwyster Ymarferwyr a Dysgwyr.

- Datblygiad Pellach y Rhwydwaith Arloesol – Camau 1, 2 a 3.
- Amserlenni – Dylunio Cwricwlwm a Datblygu'r Gweithlu drwy Ysgolion Arloesol – Model Posibl.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan Aelodau:-

- Cytunodd y CH y gellid rhannu'r rhestr o ysgolion arloesol, oedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, mewn cyfarfod CYSAG yn y dyfodol. Cytunwyd gwahodd yr ysgolion oedd ar y rhestr i gyfarfodydd CYSAG.
- Hysbyswyd Aelodau y byddai diwrnodau hyfforddi athrawon ar gael i aelodau o'r staff dysgu.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *- Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.*

**9 Y DIWEDDARAF AM CYSAG A CHYDWEITHREDIAD O YSGOL I YSGOL**

The Challenge Advisor GwE (CA) provided an update on the proposal to support school to school collaborative groups. He explained that schools in Denbighshire, Wrexham, Flintshire and Conwy had been asked if they wished to participate in school to school collaborative groups focusing on Religious Education and Collective Worship, with a view to promoting teacher representation through the school to school collaboration. The CA explained that schools had been given up until Friday, 13th February, 2016 to register, with approximately eight Denbighshire schools having expressed an interest.

The aim of the initiative had been to provide teachers with the opportunity to meet and interact, and possibly address the lack of teaching representation on SACRE. The Group acknowledged the difficulties experienced by teachers in attending meetings, and it was explained that it was intended to hold more SACRE meetings in schools.

***RESOLVED*** *- that the report be received and its contents noted.*

**10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Mae cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych wedi ei drefnu ar gyfer dydd Gwener, 20 Mehefin 2016 mewn lleoliad sydd i'w gadarnhau.

Roedd y Cadeirydd yn teimlo ei fod yn bwysig cael cynrychiolaeth o wahanol ysgolion ac y byddai hynny'n beth i'w groesawu. Cytunodd Aelodau gyda'r awgrym bod y CH yn gwahodd pob ysgol i fynychu cyfarfod CYSAG yn y dyfodol.

**11 CCYSAGC**

**(A) Cofnodion CCYSAGC - 25 Tachwedd, 2015**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2015 yng Nghastell-nedd Port Talbot (wedi'u cylchredeg eisoes) er gwybodaeth i'r aelodau.

Tynnodd y CH sylw Aelodau at Dudalennau 4 a 5 cofnodion CCYSAG, oedd yn amlinellu'r prif newidiadau i'r TGAU: CBAB o safbwynt Astudiaethau Crefyddol. Rhoddodd y CH grynodeb o effaith y manylion newydd i'w Aelodau.

***PENDERFYNWYD** – yn ddibynnol ar nodi'r uchod, derbyn cofnodion cyfarfod CCYSAG a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2015.*

**(b) Presenoldeb yng Nghyfarfod CCYSAGC – 8 Mawrth 2016**

Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu gyda'r CH ynghylch ei bresenoldeb posib yng nghyfarfod nesaf CCYSAG, a gynhelir yn Hwlffordd ar 8 Mawrth, 2016.

**CYSAG Sir Ddinbych i gynnal cyfarfod gwanwyn CCYSAGC ar 23 Mehefin 2016.**

Cadarnhawyd mai Sir Ddinbych fyddai'n cynnal cyfarfod gwanwyn CCYSAG i'w gynnal yn Rhuthun ar 23 Mehefin, 2016.

**(d) Enwebiadau ar gyfer Aelodau newydd i Bwyllgor Gwaith CCYSAG.**

Cylchredwyd copi o wahoddiad am enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAG yn y cyfarfod. Cytunodd Aelodau y dylid enwebu'r Parch. B Huw Jones ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAG.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td></td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>5</td><td>DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Mae’n ddyletswydd statudol ar CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae ganddyn nhw draddodiad hir o dderbyn adroddiadau arolygon Estyn ym mhob cyfarfod.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Rhoi gwybod i aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygon diweddar Estyn ar ysgolion.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>▪ Derbyn yr adroddiad<br>▪ Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod adroddiad o’u harolwg wedi ei ystyried, i’w llongyfarch am yr elfennau da a nodwyd, ac i’w hatgoffa bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a’r Swyddogion Gwella Ysgolion ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater sydd angen mynd i’r afael ag o.<br>▪ Y dylid gofyn i’r AALl ddosbarthu’r llythyrau i’r ysgolion perthnasol.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu
# CYSAG Sir Ddinbych

## Haf 2016

*(Adroddiadau a gyhoeddwyd yn nhymor y Gwanwyn)*

5 ysgol

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiadau</th><th>Arolygydd sy’n Adrodd</th></tr>
<tr><td>Ysgol Bro Elwern</td><td>Tachwedd 2015</td><td>Mervyn Jones</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Ysgol Gynradd Bro Elwern ym mhentref Gwyddelwern wrth ymyl Corwen, Sir Ddinbych. Mae wedi’i ffedereiddio gydag Ysgol Betws Gwerfyl Goch. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw’r iaith bob dydd a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Mae tua hanner y disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Nid oes unrhyw ddisgybl yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig. Caiff disgyblion eu derbyn i'r dosbarth meithrin ar sail llawn-amser ym mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Yn ystod yr arolygiad, roedd 44 o ddisgyblion ar y gofrestr. Maent yn cael eu haddysgu gan ddau o athrawon llawn-amser mewn dau ddosbarth oedran cymysg. Mae tua 10% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae tua 7% ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae’r nifer yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bryn Collen</td><td>Tachwedd 2015</td><td>Mrs Linda Jane Williams</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Ysgol Bryn Collen yn nhref Llangollen yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r adeilad yn cael ei rannu gydag ysgol arall sy'n darparu addysg Gymraeg. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Ar hyn o bryd, mae 170 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 22 sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser. Mae wyth o ddosbarthiadau prif ffrwd gyda phlant o’r un oedran.<br>Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer cyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 16%. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 20%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na chyfartaledd Cymru. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac mae ychydig o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Clawdd Offa</td><td>Chwefror 2016</td><td>Richard Hawkley</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Ysgol Clawdd Offa ym Mhrestatyn yn Sir Ddinbych. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw yn lleol. Mae tua 32% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (20%). Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr yn cynyddu'n gyflym. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 409 o ddisgyblion, gan gynnwys 47 disgybl sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae hyn yn cymharu â thipyn dros 300 o ddisgyblion dwy flynedd yn ôl. Mae 16 dosbarth. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r dosbarth meithrin yn dair oed. Ychydig iawn o’r disgyblion sy’n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol. Mae'r ysgol yn nodi 24% o'r disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Saesneg yw prif iaith y cartref i’r rhan fwyaf o ddisgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndir lleiafrifol ethnig neu sy’n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mae tua 6% o’r disgyblion yn derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid yw’r ysgol wedi gwahardd unrhyw ddisgyblion o fewn y flwyddyn ddiwethaf.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Llanfair DC</td><td>Rhagfyr 2015</td><td>Sioned Hywel Thomas</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd yn ysgol ddwyieithog sydd wedi'i lleoli tua dwy filltir o dref Rhuthun. Mae'n gwasanaethu pentrefi Llanfair a Phwllglas a'r ardal gyfagos ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae saith deg tri y cant o ddisgyblion presennol yr ysgol yn dewis cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 102 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 13 o ddisgyblion oedran meithrin. Caiff plant eu derbyn ar sail rhan-amser ym mis Medi sy’n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac ar sail llawn-amser yn y mis Medi canlynol. Mae'r ysgol yn cael ei threfnu’n chwe dosbarth, gyda dau ohonynt yn cynnwys disgyblion oedran cymysg.<br>Daw pedwar deg naw y cant o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae tua 5% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae tua 17% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes unrhyw ddisgybl gydag anghenion addysgol arbennig.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Gatholig Mair</td><td>Ionawr 2016</td><td>Mr Richard Lloyd</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Ysgol Gynradd Gatholig Mair yn y Rhyl, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych.<br>Mae gan yr ysgol 334 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr, gan gynnwys 42 sy’n mynychu'r feithrinfa ar sail rhan-amser. Mae 13 dosbarth yn yr ysgol. Mae tua 27% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar</td></tr>
</table>

*gyfer Cymru (20%). Mae’r ysgol wedi nodi fod gan oddeutu 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 74% o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Mae lleiafrif o ddisgyblion o dras Ewropeaidd, Asiaidd, Tsieineaidd, hil gymysg neu dras arall. Mae tua 24% o'r disgyblion yn siarad iaith heblaw Saesneg yn y cartref. Roedd pedwar gwaharddiad cyfnod penodol yn ystod y llynedd.*

## SYLWADAU CADARNHAOL

**Perfformiad Cyfredol:**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r Canlyniadau?**
**Safonau**

- Mae disgyblion Blwyddyn 6, er enghraifft, yn defnyddio eu medrau’n effeithiol mewn ymchwiliad gwyddonol i gofnodi eu rhagfynegiadau a'u canfyddiadau. Mewn hanes, maent yn defnyddio arddull dyddiadur i drafod camau a gymerwyd gan y swffragetiaid ac mewn addysg grefyddol maent yn cofnodi agweddau ar y Pentecost. (Bryn Collen)

**Lles:**

- Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n briodol at y gymuned leol drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau, cyngherddau a gweithgareddau i ddathlu hanes cyn Dywysog Cymru, Owain Glyndŵr. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau cymunedol. (Bro Elwern)

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Profiadau dysgu:**

- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'n cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytunedig ar gyfer addysg grefyddol. (Bro Elwern)
- Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang, mae cysylltiadau da gydag ysgolion yn Lesotho a Nepal, sy'n codi eu hymwybyddiaeth o fywyd plant mewn ardaloedd sy'n wahanol iawn i Gymru. (Bro Elwern)
- Mae staff yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus trwy waith ar fasnach deg, cysylltiadau ag ysgolion yn yr Eidal a Nepal, a thrwy waith yn ystod yr Eisteddfod Ryngwladol. (Bryn Collen)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus trwy waith pwnc ar wledydd eraill o gwmpas y byd. (Clawdd Offa)
- Mae'r ysgol yn darparu profiadau cyfoethog trwy gynllunio parhaus sy'n bodloni gofynion y Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd, y Cwricwlwm Cenedlaethol, egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol yn llwyddiannus. (Llanfair DC)
- Mae'r ysgol yn darparu ystod werthfawr o brofiadau i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys astudio gwledydd fel Ethiopia, cynnal wythnos Tseineaidd a gweithgareddau ysgol goedwig. O ganlyniad, mae dealltwriaeth disgyblion o faterion amgylcheddol a materion byd-eang yn datblygu'n dda. (Llanfair DC)

- Mae trefniadau i ddatblygu disgyblion fel dinasyddion byd-eang yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r ysgol yn cymryd pob cyfle i ddathlu amrywiaeth o fewn cymuned yr ysgol a'r byd ehangach yn llwyddiannus, er enghraifft trwy astudiaethau o ddiwylliannau a chysylltiadau eraill gydag ysgol yn Ethiopia. (Ysgol Mair)

**Gofal, cymorth ac arweiniad:**

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu gwasanaethau addoli ar y cyd a thrwy weithgareddau cwricwlwm ehangach. Gwahoddir ymwelwyr i arwain yr addoliad ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar destunau cyfoes, megis gofalu am yr amgylchedd ac ystyried plant a phobl sy'n llai ffodus na hwy eu hunain. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr ymdrechion i godi arian ar gyfer pobl Nepal ar ôl y daeargryn yn 2014. (Bro Elwern)
- Caiff y disgyblion lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion moesol a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol y disgyblion yn dda trwy ystod o ymweliadau ac ymwelwyr, gan gynnwys gwaith gyda Gŵyl Fringe Llangollen. (Bryn Collen)
- Caiff y disgyblion lawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion moesol a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol y disgyblion yn dda trwy ystod o ymweliadau a chyfleoedd i ddysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, er enghraifft. Mae gweithredoedd o addoli ar y cyd bob dydd yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol yn briodol. (Clawdd Offa)
- Mae'r ysgol yn darparu'n dda iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r gwasanaethau boreol a chyfleoedd i fyfyrio'n rhan amlwg ym mywyd yr ysgol ac yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau rheolaidd gan y ficer a gwasanaethau 'Agor y Llyfr', ac o ganlyniad, mae gwerthoedd fel tegwch yn cael eu meithrin yn dda. (Llanfair DC)
- Mae profiadau dysgu yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth yn ysbrydol, yn foesol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae sesiynau addoli ar y cyd ac amser cylch yn galluogi disgyblion i ystyried eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain, yn ogystal â theimladau a safbwyntiau pobl eraill. Mae'r holl ddisgyblion yn ymweld â'r eglwys leol ar gyfer dathliadau, yn enwedig adeg y Nadolig, y Pasg a'r offeren i'r rhai sy'n gadael. Mae'r ysgol yn dathlu ei phoblogaeth amrywiol yn llwyddiannus trwy gydol y flwyddyn mewn digwyddiadau fel wythnos ryngwladol, lle mae disgyblion yn dysgu am ddiwylliannau a chredoau eraill. (Ysgol Mair)

**Yr Amgylchedd Dysgu:**

- Mae gan yr ysgol bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb yn llwyddiannus. Mae parch at amrywiaeth hiliol a chydraddoldeb yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus. (Bro Elwern)
- Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar i'r holl ddisgyblion. Mae'r holl staff yn trin disgyblion yn gyfartal ac yn hyrwyddo amrywiaeth yn llwyddiannus. (Bryn Collen)
- Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, groesawgar a chynhwysol. Mae'r ethos gofalgar yn annog disgyblion i gael parch a goddefgarwch tuag at eraill. (Clawdd Offa)

- Mae'r ysgol yn amgylchedd gofalgar a chefnogol sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal. Mae ymrwymiad yr ysgol i ddathlu amrywiaeth yr holl ddisgyblion yn nodwedd amlwg o'i gwaith. O ganlyniad, mae diwylliant o ofal, goddefgarwch a pharch at ei gilydd yn treiddio drwy'r ysgol. (Ysgol Mair)

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

**Arweinyddiaeth**

- Mae'r pennaeth yn hyrwyddo cymuned ofalgar, gynhwysol ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ei hethos Cristnogol cryf. Mae'n rhannu hyn yn llwyddiannus gyda'r holl ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. O ganlyniad, mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn cael ymdeimlad cryf o berthyn. (Ysgol Mair)

**Gweithio mewn Partneriaeth:**

- Mae staff yn gwneud cysylltiadau helaeth, pwrpasol gyda'r gymuned leol, gan gynnwys cymryd rhan yng ngwasanaeth lleol Sul y Cofio a gorymdaith yr Eisteddfod Ryngwladol, i wella cyfleoedd dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cysylltiadau hyn yn hyrwyddo moeseg gref o gyfranogiad cymunedol ym mywyd a gwaith yr ysgol.  (Bryn Collen)

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ddinbych**<br>**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)** | | |
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 14 Chwefror 2014 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **6** | CYDWEITHIO YSGOL I YSGOL - DIGWYDDIAD LANSIO |
| *Cefndir i'r Cyflwyniad:*<br>Bydd GwE yn gweithio gyda CYSAG i ddarparu cyfleoedd i ysgolion weithio gyda'i gilydd i gefnogi Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. | | |
| *Pwrpas y Cyflwyniad:*<br>Derbyn cyflwyniad ynglŷn â'r lansiad gwaith cydweithio ysgol i ysgol a gynhelir yn Eglwys y Santes Fair, Sir Ddinbych, 30 Mehefin, 2016 a San Silyn, Wrecsam, 7 Gorffennaf, 2016. | | |
| *Argymhellion:*<br>• Derbyn yr adroddiad.<br>• Ystyried unrhyw gamau pellach y gallai fod yn ofynnol | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# The wonderful world of RE

# Fyd Rhyfeddol AG








RE is a unique Subject!

Mae AG yn bwnc unigrywl

# Foundation Phase





Children should (through stories, activities and experiences) be given opportunities to:

Ask and explore more complex questions (including personal, religious, spiritual and moral questions) about the world, human experience and aspects of religion.

Children should (through stories, activities and experiences) be given opportunities to:


Gain insight into religion, religious people and religious aspects of life.

Children should (through stories, activities and experiences) be given opportunities to:

Explore how religion has influenced and guided people's lives, past and present, including the emphasis of religion on spirituality and religious experience, in Wales and the wider world.

Children should (through stories, activities and experiences) be given opportunities to:

Explore our responsibility and the responsibility of religion for living things and the natural world.




Children should (through stories, activities and experiences) be given opportunities to:

Pose questions about beliefs, values and actions that arise from exploration.

Children should (through stories, activities and experiences) be given opportunities to:

Express personal responses to personal, religious and moral questions.

Children should (through stories, activities and experiences) be given opportunities to:

Investigate and express meaning (including religious meaning) through signs, symbols, artefacts and imagery.

# Cyfnod Sylfaen

Canllawiau Atodol ar gyfer y Maes Llafur Cytûn Diwygiedig ar gyfer Addysg Grefyddol

Dylid rhoi cyfle (trwy straeon, gweithgareddau a phrofiadau) i blant:

Ofyn ac archwilio cwestiynau mwy cymhleth (gan gynnwys cwestiynau personol, crefyddol, ysbrydol a moesol) ynghylch y byd, profiad dynol ac agweddau ar grefydd.

Dylid rhoi cyfle (trwy straeon, gweithgareddau a phrofiadau) i blant:

sicrhau mewnwelediad i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd


Dylid rhoi cyfle (trwy straeon, gweithgareddau a phrofiadau) i blant:

archwilio sut mae crefydd wedi dylanwadu ac arwain bywydau pobl, yn y gorffennol a'r presenol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar yr ysbrydol ac ar brofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach



Dylid rhoi cyfle (trwy straeon, gweithgareddau a phrofiadau) i blant:

Archwilio ein cyfrifoldeb a chyfrifoldeb crefydd dros bethau byw a'r byd naturiol.




Dylid rhoi cyfle (trwy straeon, gweithgareddau a phrofiadau) i blant:

ofyn cwestiynau ynghylch credoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwiliad.

Dylid rhoi cyfle (trwy straeon, gweithgareddau a phrofiadau) i blant:

fynegi ymatebion personol i gwestiynau personol, crefyddol a moesol.

